Urdd 100
1922 - 2022

# URDD GOBAITH CYMRU

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022



# CYNNWYS



1. AMDANOM NI




2. UCHELFANNAU



3. ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR



4. GWERSYLLOEDD



5. CHWARAEON



6. EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU



7. IEUENCTID A CHYMUNED



8. PRENTISIAETHAU



9. RHYNGWLADOL



10. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



11. ARIANNOL



12. TEYRNGEDAU



13. NODDWYR A PHARTNERIAID




# AMDANOM NI

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru, mudiad ieuenctid mwyaf Cymru yn 1922. Rydym yn fudiad unigryw ac yn cynnig profiadau chwaraeon, celfyddydol, preswyl, dyngarol, awyr agored, rhyngwladol, prentisiaethau a gwirfoddoli i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Mae dros 4 miliwn o ieuenctid Cymru wedi manteisio ar ein gwasanaeth dros y ganrif ddiwethaf.

Urdd 100 1922 - 2022

# UCHELFANNAU

2021-2022




Bu i Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd gyrraedd dros 56 miliwn mewn 59 gwlad ar 18 Mai 2021 gan ddenu cefnogaeth gan UN Women a Hillary Clinton.

Denwyd 13,000 i gystadlu yn ein gŵyl rithiol fwyaf erioed, Eisteddfod T 2021.

Croesawu 140 i gynhadledd breswyl #FelMerch, y gynhadledd ddwyieithog chwaraeon ieuenctid benywaidd gyntaf erioed yng Nghymru.

Cynnig llety a chymorth i 20 o deuluoedd o Afghanistan (cyfanswm o 113 o ffoaduriaid) am gyfnod o bum mis yng Ngwersyll Caerdydd.

Torri dwy record byd wedi i gefnogwyr yr Urdd uwchlwytho 1,176 fideo i Twitter a 461 i Facebook ohonynt yn canu 'Hei Mistar Urdd' fel rhan o ddathliadau ein canmlwyddiant.

Urdd 100 1922 - 2022

# ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

## SIÂN LEWIS

Braint ac anrhydedd yw cael bod wrth y llyw fel Prif Weithredwr yr Urdd wrth i'r mudiad ddathlu canmlwyddiant. Nid ar chwarae bach y mae ein staff a'n gwirfoddolwyr egnïol dros y blynyddoedd wedi sicrhau fod yr Urdd yr hyn ydyw heddiw – sef mudiad blaengar, bywiog a beiddgar. Does dim dwywaith bod yr Urdd wedi datblygu'n helaeth yn ystod y ganrif a fu, a'r pandemig wedi gorfodi'r Urdd i arbrofi ac arloesi gyda dulliau rhithiol newydd. Mae'r prif nod yn parhau, sef darparu cyfleodd gwych ac unigryw i blant a phobl ifanc i fwynhau profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan edrych yn ôl dros y flwyddyn a fu, hoffwn nodi rhai o'm huchelfannau personol:

O ganlyniad i gefnogaeth ariannol sylweddol o £1.3M gan Lywodraeth Cymru, lansiwyd **ymgyrch recriwtio genedlaethol** ar gyfer 60 swydd newydd o fewn yr Urdd ym mis Ebrill 2021, a braf oedd cael estyn croeso cynnes i bob aelod o staff newydd ar draws ein holl adrannau.

Bu i'r Urdd dderbyn cefnogaeth ariannol drwy grantiau **Haf o Hwyl** a **Gaeaf Llawn Llês** Llywodraeth Cymru a'n galluogodd i gynnal gweithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad dros fisoedd yr haf ac eto drwy gydol y gaeaf. Y brif nod oedd helpu ein hieuenctid i ddod atynt eu hunain ar ôl y pandemig drwy ddarparu gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol.

Ar ôl i'r Taliban gipio grym yn Afghanistan ym mis Awst 2021, diolch i waith tîm y partneriaid sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Cymdeithas Dai Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ynghyd ag ein staff, gwirfoddolwyr ac ysgolion, llwyddom i gynnig **llety a chymorth i 20 o deuluoedd o Afghanistan** (cyfanswm o 113 o ffoaduriaid), gyda'r rhan fwyaf o'r rheiny yn blant a phobl ifanc, am gyfnod o bum mis yng Ngwersyll Caerdydd. Bu rôl ein staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid yn allweddol wrth estyn parch, cefnogaeth a chyfeillgarwch i'r teuluoedd ar ôl iddynt wynebu cyfnod mor drasig ac erchyll. Yn ogystal â chynnig llety, fe wnaethom eu cyflwyno i Gymru, ein diwylliant a'n hiaith. Roedd yn brofiad gwylaidd i ni gyd, ac yn un na fyddwn byth yn ei anghofio. Mae Cymru yn Genedl Noddfa, a byddwn yn parhau i estyn llaw o gyfeillgarwch i bob teulu wrth iddynt ddechrau pennod nesaf eu bywydau yma yng Nghymru.

Roeddem yn falch o gael **datgan ein hymrwymiad pellach i gefnogi plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel** drwy gynnig aelodaeth yr Urdd am £1 o fis Medi 2021 ymlaen i'r rheiny sy'n hawlio cinio ysgol am ddim, ac mae 12% o aelodau 2021-22 wedi medru manteisio ar y cynnig.

Roedd **Diwrnod Cariad@Urdd** (25 Ionawr 2022) yn un i'w gofio i'r Urdd, wrth i ni nodi 100 mlynedd ers i Syr Ifan ab Owen Edwards sefydlu'r Mudiad. Dechreuodd yr hwyl gyda dros 95,000 yn ymuno gyda'n parti pen-blwydd rhithiol ar Zoom. Yna i goroni'r cyfan, llwyddodd cefnogwyr yr Urdd i dorri dwy record byd drwy uwchlwytho'r fwyaf erioed o fideos ohonynt yn canu'r un gân, sef 'Hei Mistar Urdd' i Twitter a Facebook! Uchafbwynt arall y diwrnod oedd y cannoedd o gyfarchion a dderbyniodd yr Urdd gan ysgolion, enwogion a gwleidyddion, gyda sawl un yn diolch i'r Mudiad am y cyfleoedd unigryw dros y blynyddoedd.

Ar drothwy Diwrnod Rhyngwladol y Merched, bu i ni gynnal y **gynhadledd chwaraeon ieuenctid benywaidd gyntaf erioed yng Nghymru**. Prif bwrpas cynhadledd #FelMerch oedd ysbrydoli a chefnogi mwy o ferched rhwng 16 a 25 oed i ymwneud â chwaraeon. Roedd y gynhadledd yn orlawn, gyda 140 o ferched o bob cwr o Gymru yn mwynhau sgyrsiau a gweithdai amrywiol dan arweiniad 20 o unigolion ysbrydoledig ac adnabyddus.

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022, mae'r Urdd bellach wedi ymrwymo i gynnig **llety tymor byr i deuluoedd o Wcráin** sy'n chwilio am loches a diogelwch. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n haelodau a'u hysgolion am eu dealltwriaeth a charedigrwydd, gan fod gofyn iddynt ohirio eu cynlluniau i fynychu cyrsiau preswyl yn un o'n gwersylloedd am y tro wrth i ni gynnig lloches i'r ffoaduriaid.

Wrth edrych ymlaen dros y flwyddyn i ddod, mae pob math o ddigwyddiadau a datblygiadau cyffrous ac uchelgeisiol ar y gweill, gan gynnwys mynediad am ddim i Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych; cynnal Gemau Stryd gyntaf Cymru ym Mae Caerdydd; parhau i gynnal amrywiol brosiectau rhyngwladol gyda phartneriaid newydd yn Alabama, Iwerddon, Norwy a Philadelphia.

Yn dilyn **buddsoddiad o £10M yng Ngwersylloedd yr Urdd**, edrychwn ymlaen hefyd at ddatgelu datblygiadau Calon y Gwersyll yn Llangrannog ym mis Tachwedd, agoriad y Gwersyll amgylcheddol cyntaf o'i fath yng Nghymru ym Mhentre Ifan, Sir Benfro ynghyd â Chanolfan Ddŵr newydd Gwersyll Glan-llyn.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'n haelodau a'n gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth a chydweithrediad parhaus, trwy gyfnod sydd wedi bod yn heriol i bob un ohonom. Mae cefnogaeth ein partneriaid hefyd wedi bod yn amhrisiadwy ac mae'r cydweithio rhyngom i gyd fel sefydliadau wedi ein galluogi i symud yn ein blaenau yn bositif.

**Edrychwn tua'r dyfodol gyda ffydd a gobaith.**

**Siân Lewis**



# GWERSYLLOEDD

## DATBLYGIADAU ARLOESOL I YSBRYDOLI CENEDLAETHAU'R DYFODOL











### GWERSYLL GLAN-LLYN A'R GWASANAETH AWYR AGORED

Mae staff Gwersyll Glan-llyn wedi bod yn croesawu ysgolion, grwpiau a theuluoedd fel ei gilydd yn ôl i'r gwersyll yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid-19. Eleni, rydym wedi bod yn prysur drefnu 211 o gyrsiau, sydd wedi arwain at 5,596 o wersyllwyr yn aros cyfanswm o 9,003 o nosweithiau yn y Gwersyll.

Mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd roedd Gwersyll Glan-llyn yn llwyddiannus gyda chais am gyllid Cronfa Adfywio Gymunedol y DU i redeg prosiect Hyfforddiant a Phrofiad yn y Sector Awyr Agored yng Ngwynedd. Mi fydd y prosiect yn cefnogi'r sector awyr agored trwy hyfforddi a chymhwyso ymarferwyr awyr agored, gan feithrin sgiliau ac arferion gorau darpariaeth awyr agored yn y Gymraeg.

### GWERSYLL LLANGRANNOG

Yn dilyn buddsoddiad gwerth £6.1M, mae'r gwaith o drawsnewid "calon" y gwersyll ar fin ei gwblhau. Bu i'r cabanau pren wasanaethu'r Urdd am dros 40 mlynedd, ond yn dilyn cyfnod o ddatblygiadau mawr, mae staff Llangrannog bellach yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu ysgolion a grwpiau yn ôl i fwynhau a gwneud defnydd o Neuadd Fwyta, Bloc Llety a Neuadd ymgynnull ar eu newydd wedd. Rydym bellach wedi creu "calon" newydd – ond llawn cystal – i'r gwersyll, fydd yn gallu gwasanaethu a chyfoethogi profiad plant a phobl ifanc wrth iddyn nhw ymweld â ni dros y degawdau sydd i ddod.

### GWERSYLL CAERDYDD

Ym mis Medi 2021, fel rhan o ymdrech gwaith tîm enfawr ar draws pob sector yng Nghymru, bu i'r Urdd ymrwymo i helpu cynnig lloches brys i 20 o deuluoedd o Afghanistan yng Ngwersyll Caerdydd, gyda'r nifer helaeth o'r ffoaduriaid yn blant a phobl ifanc. Dros gyfnod o 5 mis a drwy gefnogaeth ein gweithlu ac amrywiol bartneriaid bu i ni gynnig amserlenni dyddiol o weithgareddau chwaraeon a chelfyddydol ar eu cyfer, yn ogystal â thripiau wythnosol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n partneriaid am ein galluogi ni i agor ein drysau i'r teuluoedd, ac am yr holl gynigion o gefnogaeth a dderbyniwyd dros y cyfnod hwnnw.

### GWERSYLL PENTRE IFAN

Mae'r gwaith o drawsnewid canolfan Pentre Ifan i Wersyll Amgylcheddol cyntaf yr Urdd, sy'n fenter cwbl arloesol i Gymru, bellach ar ei anterth. Mi fydd y gwaith adnewyddu yn arwain at drawsnewid pum adeilad y safle i Wersyll sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn cynnig llety en suite i 55 person, yn ogystal ag ystafelloedd amlbwrpas, cegin awyr agored, cyfleusterau arlwyo ac ymolchi sy'n defnyddio pŵer solar, gardd-gegin a chyfarpar glampio. Mi fydd y Gwersyll yn rhoi cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â'r tirlun a phrofi ffordd o fyw sy'n fwy cynaliadwy – o dyfu a chynhaeafu bywyd eu hunain, i goginio a chymdeithasu o dan y sêr. Mae'r buddsoddiad o £1.3M, a glustnodwyd cyn Covid-19, yn gyfuniad o grant gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Ymddiriedolaeth Y Tywysog. Y bwriad yw agor Gwersyll Pentre Ifan yn 2022-23.

Urdd 100 1922 - 2022

# CHWARAEON

## TORRI TIR NEWYDD











## #FELMERCH

Ym Mehefin 2021, lansiwyd prosiect newydd #FelMerch ganol Mehefin mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod merched yn fwy tebygol o roi'r gorau i chwaraeon yn eu harddegau, yn enwedig ers i'r pandemig daro. Dyma Brosiect Chwaraeon Cymunedol Cenedlaethol i ysbrydoli, cefnogi ac ymbweru merched 14-25 oed i gadw'n actif a'u hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon yn eu cymunedau, beth bynnag fo'u gallu neu brofiad.
Yn benllanw blwyddyn gyntaf prosiect llwyddiannus #FelMerch, diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru cynhaliwyd y gynhadledd chwaraeon ieuenctid benywaidd gyntaf erioed yng Nghymru ar drothwy Diwrnod Rhyngwladol y Merched fis Mawrth 2022. Daeth 140 o ferched o bob cwr o Gymru ynghyd i fynychu'r gynhadledd ddwyieithog yng Ngwersyll Caerdydd.

**O ganlyniad i'r gynhadledd, rydym wedi ymrwymo i barhau i chwalu'r rhwystrau trwy ddatblygu a sefydlu 12 hwb #FelMerch ar draws Cymru gan gynnwys darpariaeth yn ystod bob gwyliau. Rydym hefyd yn ymrwymo i sicrhau llais i ferched a menywod ifanc trwy ein Fforymau rhanbarthol a cenedlaethol, gan hefyd sicrhau cynrychiolaeth llysgennad #FelMerch ar Fwrdd Chwaraeon a Phrentisiaethau'r Urdd.**

> **"Roedd amrywiaeth y siaradwyr gwadd yn anhygoel trwy gydol y penwythnos, gweithdai gwych a chyfle i gymdeithasu unwaith eto gyda phobl newydd ar ôl Covid."**
>
> **UN O FYNYCHWYR CYNHADLEDD #FELMERCH**

## GORAU CHWARAE CYD CHWARAE

Ym mis Medi 2021 cyhoeddodd yr Urdd a Chymdeithas Bêl-droed Cymru bartneriaeth newydd gyda'r nod o gynyddu'r nifer o bobl ifanc, yn enwedig felly merched, sy'n chwarae pêl-droed ynghyd â chefnogi'r tîm cenedlaethol.

## GAEAF LLAWN LLES

Bu i'r Adran dderbyn cefnogaeth ariannol sylweddol drwy grant Gaeaf Llawn Lles ynghyd â chefnogaeth gan Chwaraeon Cymru a'n galluogodd i gynnal gweithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad drwy gydol y gaeaf.

## CYSTADLAETHAU CENEDLAETHOL

Braf oedd cael croesawu 1,500 o ferched (o dros 100 o ysgolion uwchradd a cholegau Cymru) i'n Twrnamaint Pêl-rwyd Cenedlaethol ddiwedd Tachwedd, sef y gystadleuaeth genedlaethol gyntaf i ni ei chynnal ers 2019 a'r digwyddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru ers y pandemig. Cynhaliwyd tair cystadleuaeth ar draws tri lleoliad gwahanol yn y brifddinas i Bl.7-8, Bl.9-10 a Bl.11-13. Roedd 45% o'r ysgolion a fynychodd yn rai ail iaith, a thrwy gystadlu yn cynnig cyfle i'r disgyblion glywed a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell dosbarth.

Urdd 100 1922 - 2022

# EISTEDDFOD A’R CELFYDDYDAU

CYFOETHOGI A CHYNYDDU CYFLEOEDD DIWYLLIANNOL I BLANT A PHOBL IFANC











## EISTEDDFOD T

Eisteddfod T 2021 oedd yr ŵyl rithiol fwyaf yn hanes yr Urdd – bu’n wythnos ryfeddol o gystadlu o Wersyll yr Urdd Llangrannog, ac mae ein diolch yn fawr i’r 13,000 o gystadleuwyr, ynghyd â’n noddwyr a’n partneriaid. Cynhyrchwyd 37 awr o raglenni arbennig ar gyfer S4C gan Afanti a Slam Media, a darlledwyd 25 awr o arlwy’r ŵyl ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Cymru2.
Roedd yr ŵyl yn fwy arloesol fyth eleni ac yn dathlu nifer o ddatblygiadau newydd sbon, gan gynnwys ‘Prosiect Plethu’ sef casgliad o gynyrchiadau ar y cyd rhwng rai o aelwydydd yr Urdd a pherfformwyr o fri – o Gymdeithas Indiaidd De Orllewin Cymru i Jukebox Collective, Telynwyr Ceredigion i Gwilym Bowen Rhys.

## DATHLU ENILLWYR EISTEDDFOD 2020-21

Ganol Hydref bu i ni wobrwyo’r holl waith Cyfansoddi a Chreu buddugol ddaeth i law yn 2020, cyn gorfod gohirio’r Eisteddfod yn Ninbych oherwydd Covid-19. Datgelwyd enillwyr y prif gystadlaethau (Cadair, Coron, y Fedal Gyfansoddi a’r Fedal Ddrama) yn eu tro ar ffurf fideos arbennig ar blatfformau digidol yr Urdd. Yna i goroni’r cyfan, cyhoeddwyd ‘Deffro’, cyfrol y cyfansoddiadau ar ei newydd wedd wedi ei guradu gan ddau o gyn-enillwyr Eisteddfod yr Urdd, sef Brennig Davies (golygydd creadigol) ac Efa Lois (arlunydd).

## CEFN LLWYFAN

Mae sesiynau rhithiol Cefn Llwyfan yn cynnig cyflwyniad i’r diwydiant creadigol i bobl ifanc 14-25 oed. Ym mhob sesiwn ceir casgliad o banelwyr yn rhannu profiadau am y cyfleodd sydd ar gael yn y diwydiant creadigol yng Nghymru a thu hwnt, ac mae cyfle i fynychwyr holi am gyngor gan yr amrywiol gyfranwyr. Lansiwyd cyfres 2021 yn yr hydref gyda rhai o sêr Welsh of the West End yn trafod profiadau eu gyrfaoedd yn y byd Theatr Cerdd.

## TALWRN YR IFANC

Ynghyd â’n partneriaid Llenyddiaeth Cymru a BBC Radio Cymru, denwyd 9 tîm o bobl ifanc o ysgolion a Phrifysgolion i gymryd rhan yn Nhalwrn yr Ifanc eleni. Â’r cyfan o dan oruchwyliaeth y meuryn Gruffudd Owen, darlledwyd y rowndiau cyntaf ar AM, a cyrhaeddodd Ysgol y Preseli, Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Gyfun Llanhari y rownd derfynol a ddarlledwyd ar raglen radio Aled Hughes. Roeddem yn hynod o ffodus o’r mentoriaid gwych a weithiodd gyda’r timoedd unwaith eto eleni, sef Elan Grug Muse, Gethin Wynn Davies, Elis Dafydd, Steffan Phillips, Osian Wyn Owen a Judith Musker Turner.

## CYNLLUN DRAMODWYR IFANC

Y llynedd daeth Theatr Genedlaethol Cymru, Eisteddfod yr Urdd ac S4C ynghyd i sefydlu ‘Cynllun Dramodwyr Ifanc’ - partneriaeth newydd sbon i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a mentora unigryw ar gyfer cenhedlaeth newydd o ddramodwyr ifanc. Y nod yw i annog mwy i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd tra’n cael y cyfle i rwydweithio, cwrdd a dramodwyr proffesiynol a gweithdai a dosbarthiadau meistr. Eleni, ymunodd BBC Studios yn y bartneriaeth, gyda chyfle i’r ymgeiswyr llwyddiannus elwa o sgiliau sgriptwyr a chynhyrchwyr Pobol y Cwm yn ogystal â’r sesiynau mentora o dan arweiniad yr awduron Manon Steffan Ros, Alun Saunders a Melangell Dolma. Fe gofrestrodd 27 o bobl ifanc rhwng 17 a 25 oed ar y Cynllun eleni.

## EDRYCH YMLAEN AT EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

Rydym yn hynod ddiolchgar i Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg am gadarnhau y bydd hi’n bosibl i ni gynnig mynediad am ddim i faes Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 o ganlyniad i gyfraniad gwerth £527,000 gan Lywodraeth Cymru. Hwn fydd y digwyddiad celfyddydol cenedlaethol mwyaf i blant a phobl ifanc Cymru ers cychwyn y pandemig, ac rydym yn falch y bydd cynnig mynediad am ddim yn ei gwneud yn ŵyl i bawb.
O ganlyniad i’r sefyllfa bresennol yng Nghymru a thu hwnt o ran Covid-19, bwriedir cynnal dros 200 o Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth di-gynulleidfa yn y gwanwyn.

Urdd 100 1922 - 2022

# IEUENCTID A CHYMUNED

## DIWALLU ANGHENION PLANT A PHOBL IFANC CYMRU















### PROSIECT PLEIDLAIS 16/17

Fel mudiad ieuenctid mwyaf Cymru, roeddem mewn safle i chwarae rhan bwysig yn sicrhau fod cymaint â phosib o Gymry ifanc 16-17 oed yn manteisio ar y cyfle i bleidleisio am y tro cyntaf yn Etholiadau'r Senedd fis Mai 2021. Penodwyd Swyddog Prosiect Pleidlais 16/17 er mwyn arwain ar y gwaith a chynhaliwyd cynhadledd unwaith mewn cenhedlaeth, 'Ni Bia'r Dewis', yn enw'r Urdd.

### SENEDD IEUENCTID CYMRU

Rydym yn hynod falch fod yr Urdd wedi'i ddewis unwaith eto i fod yn Sefydliad Partner i Senedd Ieuenctid Cymru, ac o gyhoeddi mai Elena Ruddy, disgybl chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Gŵyr, yw Cynrychiolydd y Mudiad ar gyfer ail dymor y Senedd Ieuenctid.

### ACHREDIADAU A CHYRSIAU

Mae ein Swyddogion Cymunedol ac Ieuenctid wedi trefnu a chynnal amrywiol gyrsiau, penwythnosau iechyd a lles, fforymau ieuenctid, cymwysterau gwirfoddoli ynghyd â gweithdai celfyddydol 'Tu ôl i'r...' (Tu ôl i'r Gig / Decs / Llen / Lens) er mwyn darparu hyfforddiant ym myd dawns, ffotograffiaeth, cerddoriaeth a chyfansoddi, cynhyrchu a theatr, darlledu, animeiddio i'n haelodau drwy gydol y flwyddyn. Ein nod yw sicrhau fod cynllun achredu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer ein pobl ifanc yn weithredol ledled Cymru. Cyflawnwyd cyfanswm o 440 o achrediadau yn 2021-22, a'r targed gwreiddiol oedd 300 y flwyddyn.

### GWOBRAU RHAGORIAETH GWAITH IEUENCTID

Bu i'r Urdd ennill 'Gwobr y Gymraeg mewn Gwaith Ieuenctid' yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2021, Llywodraeth Cymru, am y modd aeth y mudiad i'r afael â heriau'r pandemig er mwyn sicrhau darpariaeth arloesol i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

### EISTEDDFODAU CYLCH A RHANBARTH

Eleni, mewn ymateb i heriau o ganlyniad i Covid-19, cynhaliwyd ein Heisteddfodau Cylch a Rhanbarth mewn modd gwahanol i'r arfer a hynny er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc oedd eisiau cystadlu yn cael y cyfle i wneud hynny - gan gynnwys cynnal Eisteddfodau teithiol, a chystadlu drwy gyfrwng Zoom. Er gwaethaf yr heriau, cofrestrodd 48,105 i gystadlu mewn amrywiol gystadlaethau, yn ogystal â 1,699 yng nghystadlaethau CogUrdd a 7,645 yng nghystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg.

Urdd 100 1922 - 2022

# PRENTISIAETHAU

YSBRYDOLI, DATBLYGU, CYFLAWNI










## MYND O NERTH I NERTH

Mae gwaith yr adran yn mynd o nerth i nerth gyda dros 140 o brentisiaid yn derbyn hyfforddiant drwy'r Gymraeg o dan adain yr Urdd yn y meysydd chwaraeon, awyr agored a gofal plant erbyn hyn. Rydym yn falch o'n partneriaethau newydd gyda ITEC a Choleg Gŵyr ac yn gwerthfawrogi'n partneriaethau parhaus gydag ACT a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Edrychwn ymlaen at ddatblygu gwaith yr Adran yn ehangach yn 2022 er mwyn cynyddu'r cyfleoedd hyfforddiant drwy'r Gymraeg i bobl ifanc Cymru.

## HWB SGILIAU HANFODOL

Sefydlwyd ein HWB Sgiliau Hanfodol er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr ledled Cymru'r opsiwn o ddatblygu eu sgiliau Cyfathrebu, Rhifedd a Llythrennedd Digidol drwy gyfrwng y Gymraeg, wrth dderbyn hyfforddiant a phrofiad addysgu o'r safon uchaf. Mae modd i unigolion weithio tuag at gymwysterau Sgiliau Hanfodol Mynediad 2 i Lefel 3, neu weithio i wella sgiliau wrth ymgymryd â rhaglen ddysgu arall. Ein gweledigaeth yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael yr un flaenoriaeth â'r Saesneg wrth i ddysgwyr gwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol, ac mae 45 wedi llwyddo i ennill cymwysterau drwy'r cynllun eleni.

## URDD-SGILIO

Prosiect newydd rydym wedi'i dreialu flwyddyn yma yw Urdd-Sgilio. Mae'n rhaglen o gyrsiau a chymwysterau gall helpu unigolion i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y byd gwaith. Y pynciau sy'n cael eu cynnig yw: Chwaraeon, Cyfathrebu, Llythrennedd Digidol, Rhifedd a Chyflogadwyedd.

## DATHLU MERCHED MEDRUS

Penodwyd un o'n prentisiaid chwaraeon, Llio Bryn Jones, yn Llysgennad Prentisiaethau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) ar gyfer 2021. Fel llysgennad, mae Llio'n hyrwyddo prentisiaethau dwyieithog ac yn annog rhagor o bobl i siarad Cymraeg, yn enwedig yn y gweithle. Bu Llio eisoes yn Llysgennad Ifanc Platinwm gyda'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid yng Nghymru ac yn Llysgennad Chwaraeon Ifanc yn Sir Ddinbych yn 2019.

# RHYNGWLADOL

## ESTYN DWYLO DROS Y MÔR










### NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2021

Cafwyd ymateb syfrdanol i Neges Heddwch ac Ewyllys Da ‘Cydraddoldeb i Ferched’ ar 18 Mai 2021 a luniwyd ar ran pobl ifanc Cymru gan fyfyrwyr o Brifysgol Abertawe. Cyfieithwyd y Neges i 65 iaith gan gyrraedd 59 gwlad a chyrhaeddiad potensial ar y cyfryngau cymdeithasol o 84 miliwn ar draws y byd. Yn ogystal, denwyd cefnogaeth gan lu o sefydliadau ac enwogion clodfawr, gan gynnwys UN Women a Hillary Clinton.

### GWENWYN, TG LURGAN




Rydym wedi parhau ein partneriaeth gyda phrosiect ieuenctid TG Lurgan o’r Iwerddon drwy gydol y cyfnodau clo, ac ym mis Ebrill 2021 rhyddhawyd Gwenwyn/ Nimhneach, sef ail gyd-gynhyrchiad yr Urdd â’r Gwyddelod. Crëwyd ffilm drawiadol oedd yn cynnwys cyfraniadau gan 30 o bobl ifanc o Gymru a’r Iwerddon. Gwyliwyd y fideo dros 11,000 o weithiau ar YouTube yn unig, o fewn dyddiau cyntaf ei rhyddhau ynghyd â chyrhaeddiad o 35,000 ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Dewiswyd y gân fel Trac yr Wythnos gan BBC Radio Cymru hefyd. Y bwriad yw trefnu taith i griw o aelodau’r Urdd i’r Iwerddon yn 2022 er mwyn cydweithio ar drydydd cynhyrchiad, fel rhan o ddathliadau ein canmlwyddiant.

### CÔR YR URDD


Yn ystod wythnos Eisteddfod T 2021 cyhoeddwyd y byddai buddugwyr yr ŵyl ddigidol yn cael cynnig cyfle unwaith mewn oes i ymuno â chôr ieuenctid newydd sbon – Côr yr Urdd – fydd yn teithio i Alabama dros wyliau’r Pasg 2022 fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant y mudiad. Ar ôl galwad agored a chyfres o glyweliadau yn yr hydref, cadarnhawyd y byddai grŵp ychwanegol o bobl ifanc yn ymuno a’r buddugwyr i berfformio mewn cyngherddau yn Alabama ac Atlanta, dysgu mwy am y traddodiad o ganu gospel yn ogystal â hanes hawliau sifil yr ardal ynghyd ag ddathlu a rhannu mwy am yr iaith Gymraeg a’n diwylliant cyfoes. Mae S4C wedi comisiynu rhaglen ddogfen arbennig fydd yn dilyn y daith, ac yn cael ei darlledu ym mis Mai 2022.

Urdd 100 1922 - 2022

# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL


CIP AR GYRHAEDDIAD EIN CYFRIFON












## FACEBOOK

**Nifer o ddilynwyr: 11,919**
(+16.9% ers llynedd)

**Ymweliadau i'r wefan: 29,215**
(+19.6 ers llynedd)

Y nifer fwyaf o bobl yn canu'r un gan ar Facebook mewn un awr: 461

## TWITTER

**Nifer o ddilynwyr: 24,816**
(+14.3% ers llynedd)

**Nifer o argraffiadau 6,975,901**
(-4% ers llynedd)

Y nifer fwyaf o bobl yn canu'r un gan ar Twitter mewn un awr: 1176

## INSTAGRAM

**Nifer o ddilynwyr: 11,311**
(+38.5% ers llynedd)

**Cyfradd ymrwymiadau: 2.8%**
(+12.1% ers llynedd)

**Ymweliadau i'n LinkTree: 1,830**
(+24.5% ers llynedd)

# GWYBODAETH ARIANNOL

ADRODDIAD Y TRYSORYDD - 2021/2022





## Y TRYSORYDD - ABIGAIL WILLIAMS

Mae'n deg i ddweud fod yr Urdd wedi wynebu her ariannol aruthrol o ganlyniad i sefyllfa Covid-19. Bu'n rhaid cau gwasanaethau'r Urdd ym mis Mawrth 2020 ac o ganlyniad i hyn, gwelwyd colledion incwm sylweddol. Rhaid felly oedd gwneud penderfyniadau anodd gan gynnwys addasu gweithgareddau ac edrych ar strwythur staffio'r Mudiad.

Trwy'r cyfnod heriol yma, mae'r Urdd wedi bod yn hynod o ffodus o elwa o gyllid, cyfraniadau, cymynroddion a rhoddion gan ffrindiau a rhanddeiliaid sydd wedi cefnogi'r Mudiad, ac mae'n briodol diolch yn arbennig i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus.

Braf yw gweld ffrydiau incwm yr Urdd yn dechrau cael eu hail-adeiladu ac mae hyn wedi cyfrannu tuag at y canlyniad positif o £2.9 miliwn yn 2021/22.

Mae'r gweddill yma yn cynnwys grantiau cyfalaf o £2.2 miliwn gan Lywodraeth Cymru, Princes Trust, Ymddiriedolaeth Garfield Weston a Chwaraeon Cymru i gefnogi datblygiadau yng Nglan-llyn, Llangrannog a Phentre Ifan. Er fod yr incwm yn cyfrannu at weddill 2021/22, mae'r gwariant wedi ei gofnodi fel rhan o asedau'r Urdd.

Drwy'r grantiau cyfalaf yma ac arian yr Urdd, buddsoddwyd £3.03 miliwn yn asedau'r Mudiad yn 2021/22. Y gwariant mwyaf oedd buddsoddi £2.99 miliwn ar brosiect Calon y Gwersyll yn Llangrannog, ond gwariwyd £0.03 miliwn ar  waith cychwynnol y Ganolfan Ddŵr yng Nglan-llyn a £0.01 miliwn ar waith cychwynnol ym Mhentre Ifan hefyd. Bydd y prosiectau yma, yn ogystal â chynlluniau cyfalafol eraill y Mudiad, yn hollbwysig wrth foderneiddio, datblygu a gwella cyfleusterau ein gwersylloedd.

Roedd hi'n hyfryd gallu ailddechrau ar gyrsiau preswyl i ysgolion yn y gwersylloedd yn ystod haf 2021, er bod hyn ar gapasiti llai er mwyn cydymffurfio â rheolau pellter cymdeithasol Covid-19. Mae'r Mudiad hefyd wedi elwa o incwm a dderbyniwyd i Ganolfan Breswyl Caerdydd i ddarparu 100% o'r gwelyau am gyfnod o 5 mis i 20 o deuluoedd o Afghanistan, gyda llawer ohonynt yn blant a phobl ifanc.  Bydd yr incwm yma yn cael ei ail-fuddsoddi i wella cyfleusterau y ganolfan er budd i aelodau'r Urdd am y dyfodol

Unwaith eto eleni, rydym yn hynod o ddiolchgar am bob cefnogaeth; boed hynny'n gefnogaeth ariannol drwy garedigrwydd ffrindiau'r Mudiad, trwy haelioni'r holl gyrff cyhoeddus sydd yn ein cefnogi neu'n gefnogaeth ein staff a'n gwirfoddolwyr sy'n gweithio mor ddiwyd er bydd yr Urdd.

Fe fydd y Mudiad yn parhau i fonitro'r sefyllfa ariannol yn ofalus, ond ym mlwyddyn ein canmlwyddiant, gallwn edrych tuag at y dyfodol yn bositif er mwyn parhau i ddatblygu darpariaeth yr Urdd ar gyfer y dyfodol.

Urdd 100 1922 - 2022

# GWYBODAETH ARIANNOL

## FFYNONELLAU INCWM ALLANOL



| CYNIGWYD Y PRIF GRANTIAU CANLYNOL | £ |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru - Datblygiadau Cyfalafol | 2,228,566 |
| Llywodraeth Cymru - Hyrwyddo'r Gymraeg | 1,068,384 |
| Llywodraeth Cymru - Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuenctid | 135,764 |
| Llywodraeth Cymru - Grantiau Cadernid | 90,000 |
| Llywodraeth Cymru - Adnoddau Addysgol | 35,100 |
| Llywodraeth Cymru - Strategaeth Rhyngwladol | 35,000 |
| Llywodraeth Cymru - Prosiect Lles | 30,000 |
| Llywodraeth Cymru - Prosiectau Eraill | 42,848 |
| Chwaraeon Cymru - Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol | 799,280 |
| Chwaraeon Cymru - Cyfalaf | 66,669 |
| Prince's Trust | 250,000 |
| Garfield Weston Foundation | 150,000 |
| Cronfa Adfywio Gymunedol y DU | 150,753 |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol - Cynllun Prentisiaethau | 100,000 |
| Cyngor Llyfrau - Grant Cylchgronau | 34,000 |
| Cronfa Gymunedol Gwynt y Mor | 27,083 |
| | |
| **Grantiau i'r Eisteddfod a'r Celfyddydau** | |
| Llywodraeth Cymru | 150,000 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 142,200 |

| (I) AWDURDODAU LLEOL - gan gynnwys grantiau lles, cefnogi swyddogion Ieuenctid, Chwaraeon a Prentisiaid | £ |
|---|---|
| Caerdydd | 90,240 |
| Dinbych | 76,800 |
| Môn (cynnwys Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn) | 71,284 |
| Y Fflint | 67,500 |
| Caerffili | 66,582 |
| Caerfyrddin | 42,860 |
| Merthyr | 35,700 |
| Casnewydd | 35,500 |
| Bro Morgannwg | 34,900 |
| Pen-y-Bont | 29,870 |
| Gwynedd | 21,135 |
| Powys | 20,554 |
| Ceredigion | 16,150 |
| Wrecsam | 15,000 |
| Torfaen | 12,038 |
| Abertawe | 11,740 |
| Penfro | 9,000 |
| Castell Nedd & Phort Talbot | 7,913 |
| Blaenau Gwent | 6,000 |
| Mynwy | 5,040 |
| Conwy | 2,240 |

| (II) AWDURDODAU LLEOL - Prif Gymynrhoddion | £ |
|---|---|
| Ifan Prys Edwards | 60,000 |
| WL Roberts | 37,500 |
| Dr John M Thomas | 35,107 |
| Delyth Ann George | 30,000 |
| Ceri Thomas | 10,000 |
| John Owen | 5,000 |
| Gwenfair Jenkins | 1,500 |

Urdd 100 1922 - 2022

# GWYBODAETH ARIANNOL

## MANTOLEN, INCWM A GWARIANT

ADREF
HOME

| MANTOLEN (31 MAWRTH 2021) | 2022 (£) | 2021 (£) |
|---|---|---|
| **Asedion Sefydlog** | | |
| Asedau anniriaethol | 60,984 | 32,049 |
| Asedau diriaethol | 20,336,578 | 17,526,768 |
| Buddsoddion | 4,123,064 | 3,863,825 |
| | **24,520,626** | **21,422,642** |
| **Asedion Cyfredol** | | |
| Stoc | 63,617 | 23,483 |
| Dyledwyr | 1,295,279 | 513,005 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 4,182,155 | 4,036,497 |
| | 5,541,051 | 4,572,985 |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (2,598,594) | (1,435,779) |
| Asedion cyfredol net | 2,942,457 | 3,137,206 |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 27,463,083 | 24,559,848 |
| | **27,463,083** | **24,559,848** |
| **Cronfeydd** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 5,491,119 | 2,709,884 |
| Cronfeydd Rhydd | 21,685,057 | 21,582,490 |
| Cronfeydd gwaddol | 286,907 | 267,474 |
| **CRONFEYDD** | **27,463,083** | **24,559,848** |

| INCWM | 2022 (£) | 2021 (£) |
|---|---|---|
| Llangrannog a Phentre Ifan | 1,078,296 | 126,469 |
| Glanllyn | 789,796 | 142,957 |
| Caerdydd | 1,344,268 | 3,146 |
| Aelodaeth | 234,661 | 67,932 |
| Chwaraeon | 309,476 | 72,600 |
| Eisteddfod T (ddim yn cynnwys grantiau) | 250,290 | 153,000 |
| Ieuenctid a chymuned | 68,126 | 1,679 |
| Prentisiaethiaid | 430,045 | 299,254 |
| Cylchgronau | 78 | 4,743 |
| Grantiau (yn cynnwys chwaraeon ac eisteddfod) | 6,217,094 | 5,960,281 |
| Rhoddion a chymynroddion | 491,132 | 2,525,314 |
| Incwm o fuddsoddion | 45,270 | 37,555 |
| Amrywiol | 88,973 | 166,022 |
| **CYFANSWM INCWM 2021/2022:** | **11,347,505** | **9,560,952** |

| GWARIANT: | 2022 (£) | 2021 (£) |
|---|---|---|
| Llangrannog a Phentre Ifan | 2,039,996 | 1,549,679 |
| Glanllyn | 1,435,598 | 1,102,478 |
| Caerdydd | 954,503 | 280,342 |
| Chwaraeon | 1,497,192 | 830,919 |
| Eisteddfod | 451,314 | 752,740 |
| Ieuenctid a Chymuned | 1,272,622 | 1,580,015 |
| Prentisiaethiaid | 896,778 | 613,323 |
| Cylchgronau | 60,217 | 94,300 |
| Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 40,613 | 48,137 |
| **Cyfanswm Gwariant 2021/2022:** | **8,648,833** | **6,851,933** |

# GWYBODAETH ARIANNOL

CANLYNIAD Y FLWYDDYN 2021/2022



| | 2022 (£) | 2021 (£) |
|---|---|---|
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 2,698,672 | 2,709,019 |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 263,768 | 783,021 |
| ***Incwm Net*** | 2,962,440 | 3,492,040 |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2021 | 24,559,848 | 21,067,808 |
| Lleihad ar ail-brisio eiddo | (59,205) | - |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2022** | 27,463,083 | 24,559,848 |

Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £4,862,335 o gronfeydd rhydd, £6,475,414 o gronfeydd cyfyng a £9,756 o gronfeydd gwaddol.

Mae'r incwm net am y flwyddyn o £2,962,440 yn cynnwys gweddill o £152,069 ar gronfeydd rhydd a gweddill o £2,810,371 ar gronfeydd cyfyng a gwaddol.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR 2021/2022

Mae'r cyfrifon yma yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd o'r datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni, ar 21 Rhagfyr 2022 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ'r Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon llawn gan Ashmole & Co., Cyfrifwyr Siartredig a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r grynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid cyfeirio at y cyfrifon statudol llawn, Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

W. Dyfrig Davies

...........................................................

Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# TEYRNGEDAU

TALU TEYRNGED I EMYR EDWARDS, UN O SYLFAENWYR CWMNI THEATR IEUENCTID YR URDD



## EMYR EDWARDS

Gyda thristwch mae Urdd Gobaith Cymru yn talu teyrnged i un o Lywyddion Anrhydeddus Eisteddfod yr Urdd, y cyfarwyddwr a'r dramodydd Emyr Edwards.

Yn 1973 cyhoeddodd yr Urdd awydd Emyr Edwards y Barri i sefydlu Cwmni Theatr Ieuenctid o dan nawdd yr Urdd. Rhoddwyd oedran penodol i aelodau'r cwmni, sef 15 - 25. Un o uchafbwyntiau'r fenter oedd perfformio'r ddrama gerdd 'Jiwdas Iscariot' trwy Gymru yn 1979, recordiwyd LP o'r gerddoriaeth yn Stiwdio Sain a chyhoeddwyd y ddrama.

Treuliodd Emyr ei yrfa fel pennaeth yr Adran Ddrama yng Ngholeg Hyfforddi Morgannwg y Barri ac yna ym Mholytechnig Cymru, Pontypridd. Bu'n gynhyrchydd am bedair blynedd yn nyddiau cynnar datblygiad S4C ac enillodd gystadleuaeth y ddrama fer dair gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae ganddo dros 30 o gyfrolau wedi eu cyhoeddi, y rhan fwyaf yn ddramâu ac eraill yn farddoniaeth.

Gwnaeth Emyr gyfraniad mawr yn rhoi cyfleoedd unigryw a bythgofiadwy i rai cannoedd o bobl ifanc Cymru oedd â diddordeb yn y theatr drwy'r Urdd. Roedd yn un o'r bobl brin hynny oedd nid yn unig â gweledigaeth ond â'r penderfyniad i droi'r weledigaeth honno'n ffaith, a braint a phleser oedd cael ei anrhydeddu yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Mae'r Urdd fel mudiad yn anfon cydymdeimlad diffuant at ei deulu, ac yn edrych i ailgydio yng Nghwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd i'r dyfodol

Urdd

100

1922 - 2022

# NODDWYR A PHARTNERIAID

ADREF
HOME

## DIOLCHWN I'R SEFYDLIADAU CANLYNOL A GEFNOGODD WAITH YR URDD YN YSTOD Y FLWYDDYN:

ACT Training
Aelwyd Coed y Cwm
Afanti Media
Agored Cymru
Athletau Cymru
Bad Wolf
BBC Cymru
BT
Busnes Cymru
Canolfan Mileniwm Cymru
Capel Bethlehem (Gwaelod y Garth)
Capel Judah, Dolgellau
Castell Howell
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Cleddyfa Cymru
Codi'r To
Coleg Cambria
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Coleg Gŵyr
Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru
Criced Morgannwg
Creative Risk Solutions
Cronfa Adfywio Gymunedol y DU
Cronfa Gwynt y Môr
Cyngor Abertawe
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Caerffili
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Llyfrau Cymru
Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Torfaen
Cyngor Tref Amlwch
Cymdeithas Bêl-droed Cymru
Cymoedd Creadigol
Cymru Greadigol
Cytûn
Chwaraeon Anabledd Cymru
Chwaraeon Cymru
Dawns i Bawb
Eglwys Minny Street
Everyman Theatre
First4Sport
Frân Wen
Gemau'r Gymanwlad Cymru
Greenwich Leisure Limited
Grŵp Llandrillo Menai
Gweill Gobaith
Hybu Cig Cymru
Ifor Williams Trailers Ltd
ITEC
Llenyddiaeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Maes B
Menter Iaith Caerdydd
Môn Actif
Mudiad Meithrin
NOCN
North Wales Hydro Power
NTFW
Pêl-rwyd Cymru
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol De Cymru
Prifysgol y Drindod Dewi Sant
Radio Aber
Regan Talent Group
S4C
Screen Alliance Wales
Sgil Cymru
Sport Leaders
Trafnidiaeth Cymru
The Moondance Foundation
Theatr Arad Goch
Theatr Derek Williams
Theatr Genedlaethol Cymru
Theatr na nOg
Thompson Darwin Law
Undeb Rygbi Cymru
Western Power
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Y Gymdeithas (Ynys Môn)
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Ysgol Abererch
Ysgol Plasmawr
Toriad Tudalen